YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XLVII. EBRILL, 1947. RHIF 4.

Cymru ac Evesham.

DIOLCHAF yn gynnes i Miss Katie Jones, Gellifaharen, am ei herthygl ddiddorol ar y Parch. Timothy Davis yn rhifyn Chwefror o'r YMOFYNNYDD. Nid ydyw yn rhan o'm bwriad i fanylu ar yr ysgrif ond cyn ymafael yn fy niben arbennig carwn wneud dau neu dri sylw. Ai nid yn 1819 (yn hytrach na 1818) y dechreuodd Timothy Davis ar ei weinidogaeth yn Evesham? Nid ydyw Miss Jones a'r Parch. R. J. Jones (Gwel. *Unitarian Students* 1796—1901) yn cytuno ynghylch pwy oedd yn pregethu pan deimlodd Timothy Davis alwad anwrthwynebol y Weinidogaeth. Gyda golwg ar yr ymdrafodaeth ar ymagwedd y Prifathro David Peters at fyfyrwyr Undodaidd diddorol ydyw sylwadau'r Parch. R. J. Jones yn ei gyfrol fechan a nodais : ceir ynddi ddogfennau cyfoes yn ymdrin â'r mater.

Un o effeithiau erthygl Miss Jones fu i'm symbylu i ymhelaethu ychydig ar gysylltiad eithriadol Eglwys Oat Street, Evesham, â Chymru ac yn arbennig â Cheredigion.

Ym mlwyddyn dathliad daucanmlwyddiant Capel Oat Street fe gyhoeddodd Kenneth Gill Smith (Ysgrifennydd yr Ymddiriedolwyr) gyfrol fechan hylaw yn dwyn y teitl *The Story of an old Meeting House* (1737—1937). Ynddo ceir bywgraffiadau byrion o holl weinidogion y gynulleidfa o'r cychwyn. O'r gyfrol honno y cymeraf lawer o'r ffeithiau canlynol i wireddu perthynas y gynulleidfa â Chymru.

JOHN HIGGS. Efe fu gweinidog cyntaf y ddiadell yn Evesham. Mewn gwahanol gyfeiriadau ato fe'i enwir yn John, Thomas a Daniel. Pa un a oedd iddo fwy nag un enw bedydd ni wyddis. Awgryma'r Prifathro Alexander Gordon y posibilrwydd hwnnw neu iddo fabwysiadu enw ei dad. Mab ydoedd i'r Parch. Daniel Higgs, un o'r ddwy fil a drowyd allan o'r Eglwys Esgobol adeg pasio'r Ddeddf Unffurfiaeth yn 1662. Dywedir geni John Higgs

yn Abertawe a bu yn weinidog yn Evesham o 1714 (23 blynedd cyn codi'r Capel) hyd ei farw yn 1728.

Dilynwyd John Higgs gan ddau Sais. Yna cawn DAVID JONES yn weinidog yno. Un o Sir Aberteifi oedd y Cymro hwn. Fe'i ganed yn 1740. Yr oedd yn gyd-efrydydd yng Ngholeg Caerfyrddin â'r Parch. David Davis Castellhywel. Gyda David Jones y dechreuodd cysylltiad Ceredigion â chynulleidfa Evesham. Gwasanaethodd o 1778 hyd 1783.

Wedi gweinidogaeth o bum mlynedd gan Sais arall cymerodd CHARLES LLOYD ofal yr eglwys. Ganed ef yng Nghastellhywel yn 1766. Fe'i addysgwyd gan ei dad a David Davis cyn iddo fyned i'r Coleg Presbyteraidd a oedd bryd hwnnw yn Abertawe. Dywed George Eyre Evans yn ei *Midland Churches* ei ethol yn weinidog yn 1788. Wrth a ddywedir amdano cesglir y perthynai iddo lawer o hynodrwydd. Cychwynnodd Ysgol Sul a dywedir iddo ychwanegu rhif y gynulleidfa o ddeugain i ddeugant (Gwel. *Midland Churches*). Ymhlith ei neilltuolion oedd y dymuniad o weinyddu'r sacramentau heb ei ordeinio a chyfododd ynddo amheuaeth ynghylch bedyddio babanod. Ar y 3ydd o Ebrill 1790 cynigiodd naill ai dileu'r ordinhad neu ymddiswyddo. Derbyniwyd ei ymddiswyddiad yn ddiymdroi (*Midland Churches*). Bu Charles Lloyd farw yn Llanbedr ar y 23ain o Fai 1829, a chladdwyd ef yng nghladdfa Eglwys Llanwenog.

Ni bu eto namyn un gweinidog o Sais yng Nghapel Oat Street, a hynny am yr ysbaid fer o flwyddyn, cyn i BENJAMIN DAVIS dderbyn y fugeiliaeth yn 1791. Yn y flwyddyn honno y dechreuodd y cysylltiad rhwng teulu'r Dafisiaid â Chapel Oat Street—cysylltiad a barodd yn ddifwlch hyd yn ddiweddar oni phery o hyd. Fel y mynega Miss Jones brawd oedd Benjamin Davis i Ddafis Castellhywel. Ganed ef yn y Goitre ger Llanbedr. Bu'n Athro yn y Coleg Presbyteraidd o 1779 i 1783. Gweinidogaethodd yn Evesham hyd ei farw yn 1811.

PETER CHARLES fu'r gweinidog nesaf, a bu yn Oat Street o 1811 hyd 1815. Dywedir mai Cymro oedd yntau, a hawdd credu hynny o gofio nad dieithr ydyw'r cyfenw yng Nghymru. Yn wir ceir rhai o arweinwyr amlycaf crefydd yn ein gwlad yn dwyn yr enw. Ni wyddis fawr am y Charles hwn oddieithr iddo adael y weinidogaeth a myned yn Llyfrgellydd i Lyfrgell Gyhoeddus Evesham.

Ei ddilynydd fel gweinidog fu THOMAS DAVIS, pumed mab y bardd o Gastellhywel ac felly yn nai i'r Benjamin Davis uchod. Ganed Gorffennaf 1789. Byr fu ei weinidogaeth yn Evesham (1816—1818). Bu farw yn ddyn ifanc 36 mlwydd (1825).

Wedi ymadawiad Thomas Davis gwasanaethodd WILLIAM WILLIAMS, brodor o Geredigion, fel *supply* yn y flwyddyn 1818.

Yna am dri mis (1818—19) cyflawnodd JOHN EVANS, gweinidog

Caerfyrddin o 1816 i 1818 ac o 1819 i 1825 (y flwyddyn y bu farw), yr unrhyw wasanaeth. Brodor ydoedd o Brechfa, Sir Gaerfyrddin.

TIMOTHY DAVIS. Gweler yr erthygl yn rhifyn Chwefror. (Rhwng cromfachau dyfynnaf o lythyr Saesneg hir, a feddaf, dyddiedig yr ail o Awst, 1848, a anfonodd Mr. Davis o Evesham i'r Parch. Thomas Thomas, Pantydefaid. Er na chynhwysa ddim pwysig iawn y mae'n llythyr personol diddorol. Adlewyrcha serch mawr Mr. Davis at ei henwlad a'i hoffter digymysg o'i gyfoedion bore oes. Ysgrifenna eu henwau yn ôl dull gwlad ac arfer eu cymydogion—"Old Evan Scybor by Castle Howell, sometimes called Evan y Bank. We used to work together in former years in the quarry on Castle Howell Hill—Mari Landwr—Betty, widow at the cottage next to the arms. She and Thomas Shôn yr hwpper her late husband were warm friends of mine." Gofynna i Mr. Thomas rannu ychydig sylltau rhyngddynt. Sonia am gais a wnaed iddo gyhoeddi'r bregeth a draddododd yn angladd "Mally Blaencwm" ar "Beryglon a Dyletswyddau Bywyd." Cais am restr o danysgrifwyr. "It would (be) gratifying to me in this distant part among *y Saeson* to read a list of Welsh names of those who dwell in the locality where I spent my youth and whose fathers I remember with considerable interest, respect and affection."

Ychwanega ymhlith llawer o bethau eraill y cofiai yn dda amdano'n traddodi pregeth angladdol tadcu Mr. Thomas ar y 1af o Fai 1808, mwy na 40 mlynedd yn flaenorol, ar y testun, "Marw a wnelwyf o farwolaeth yr uniawn a bydded fy niwedd i fel yr eiddo yntef." Pregethais, meddai, gyda mwy o hyder, gwres a difrifoldeb nag arfer, fel yr oedd yn eglur i mi oddiwrth "Shôn y Gof, Tad William eich cymmydog" * * * * "As I mentioned to you before, there was a great concourse of people at your Grandfather's funeral come to pay their last tribute of respect to an upright man." Balch wyf, meddai ymhellach, i chwi ymsefydlu yng Ngheredigion. Gellwch fod mor gysurus yno ag yn unrhyw ran o'r byd er na chaiff eich llafur gymaint cydnabyddiaeth ariannol ag y caffai mewn rhyw fan arall. Chwi fyddwch yn fendith fel ysgolfeistr a gweinidog, fel fy nhad am flynyddoedd lawer yn yr un ardal. Llwyddiant a bendith a ddilyno eich galwedigaeth wasanaethgar.

I minnau ychwanegu gair at y llythyr nodaf mai can mlynedd i eleni y dechreuodd gweinidogaeth hir (1847—1894) Mr. Thomas ym Mhantydefaid).

O 1854 hyd 1893 Saeson a Scotiaid a fu a gofal Eglwys Oat Street. Yna daeth RUDOLF PARISIUS NEW DAVIS. Wyr oedd i Timothy Davis. Gweinidogaethodd yn Oat Street o 1893 hyd 1904.

Ar ôl cyfnod o bum mlynedd cawn WILLIAM EDWARD WILLIAMS â'r gofal. Un o feibion Caerdydd oedd efe. Ymadawodd am New Zealand yn 1914.

Wedi Mr. Williams bu olyniaeth o bedwar Sais ac yn awr dyna Gymro arall W. PRIESTLEY PHILLIPS ar fin gadael ei wlad i chwyddo nifer y Cymry a fu yn gofalu am hen gynulleidfa Oat Street. Mab ydyw i'r diweddar Barchedig W. J. Phillips, Notais, a'i fam yn chwaer i'r diweddar Mrs. R. J. Jones, Aberdâr. Fel ei dad y mae Mr. Phillips yn bregethwr tra derbyniol. Magodd ei deulu o du ei dad fwy o bregethwyr na nemor i deulu arall yn yr enwad, ag eithrio teulu'r Dafisiaid. Heblaw efe ei hun a'i dad gellir nodi dau ewythr ei dad, sef y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach, Aberdâr, a John Briggs Lloyd a fu'n weinidog ar amryw eglwysi yn Lloegr, tadcu ei dad (y Parch. Titus Lloyd) a'i hen dadcu (y Parch. Evan Lloyd)—y rhai gyda'i gilydd a gynrychiolant yn y weinidogaeth bum cenhedlaeth olynol.

Eiddunwn i Mr. Phillips bob hapusrwydd yn ei faes newydd a'r unrhyw lwyddiant a nodweddodd nifer o'i gydwladwyr a'i rhagflaenodd yn Evesham.

Fe welir i ddeg o weinidogion cyflawn o Gymru dderbyn yr ofalaeth yn Evesham—pedwar ohonynt yn Ddafisiaid—heb sôn am ddau a fu yno am dymhorau byr fel *supplies*.

DARLLENYDD.

Mudiad Undodaidd yn Aberystwyth

Gan DR. D. J. DAVIES, B.A.

(*Parhad o dudalen 8—Rhifyn Ionawr*).

BREGUS—bregus iawn, yn wir—oedd iechyd Dafydd Ifon Jones, Ysgrifennydd y Capel Bach. 'Roedd y darfodedigaeth eisoes wedi cydio ynddo ac ni fu ei oes yn hir. Ond tra pery bywyd fe bery hefyd y gobaith am wellhad. Felly ar Chwefror 9, 1907 hwyliodd o Blymouth am New Zealand ac hebrynodd y Parchedig G. Eyre Evans ef hyd at fwrdd y llong. 'Roedd ei golli ef yn golled fawr i'r achos bach am ei fod nid yn unig yn ysgrifennydd y gynulleidfa ond hefyd yn cymryd y gwasanaeth yn gymharol aml ac yn bregethwr tra derbyniol. Ni ddewiswyd neb yn olynydd iddo fel ysgrifennydd am gryn dipyn o amser, ond pan ddeallwyd nad oedd obaith iddo ddychwelyd at ei waith ceisiwyd gan y Parchedig G. Eyre Evans ymgymeryd â gwaith ysgrifennydd yn ogystal a thrysorydd. (Efe oedd y trysorydd yn barod).

Ychydig o dan flwyddyn wedi agor y capel bach yn yr Heol Newydd bu yna gryn helynt ynglŷn â'i gofrestru. Ymddengys y cofrestrwyd ef ar 13 Mawrth, 1906 fel tŷ cwrdd i addoli Duw gan gynulleidfa o bobl a elwir yn "Ymneilltuwyr Protestanaidd (Anenwadol)." Ymddengys ymhellach i'r Cofrestrydd Cyffred-

inol glywed rywfodd y cyfrifid y gynulleidfa ymhlith cynulleidfaoedd Undodaidd Cymru ym mlwyddiadur yr enwad ac hefyd y disgrifid y gynulleidfa ar y bwrdd tuallan i'r capel fel "Cynulleidfa o Undodiaid i Christnogion eraill." Yn naturiol, dryswyd meddwl y swyddog uchel hwnnw ac yn ei lythyr at y Parchedig G. Eyre Evans tyn ei sylw at y ffaith fod yn rhaid ail-gofrestru'r capel os newidiwyd enw'r gynulleidfa. Wedi cryn dipyn o ohebiaethu rhwng Mr. Evans â'r Cofrestrydd ac wedi ystyried y mater yn ofalus gan y gynulleidfa penderfynwyd er mwyn arbed trafferth a ffwdan mai gwell fyddai mynd 'nol at yr hen enw. Ond yr hyn sydd yn rhyfedd ynglŷn â'r mater yw mai "A Congregation of Unitarian and other Christian people" sydd ar y bwrdd yn awr, ac er côf gennyf fi.

Yn y cysylltiad yma maddeued y darllennydd i mi am wneud sylw neu ddau na pherthyn yn briodol i'r hanes. Yn ein henwad mae dwy ysgol ynglŷn â'r cwestiwn o roddi enw ar ein cynulleidfaoedd. Dywed un ysgol gan ddilyn Martineau ac eraill na ddylem alw ein cynulleidfaoedd yn Undodaidd, er mai Undodiaid yw'r rhan fwyaf yr aelodau, yr aelodau i gyd hwyrach, am y rheswm, meddent hwy, fod y gair "Undodaidd" yn cyfyngu ar ein rhyddid i ddatblygu yn ein cred ac i gredu rhywbeth gwahanol i ystyr y gair. Dywed yr ysgol arall fod y gair "Undodaidd" wedi dod i feddwl rhyddid i ddilyn y gwirionedd i ba le bynnag yr elo ac y dylem ymfalchïo ynddo a galw ein cynulleidfaoedd arno. Perthynai'r Parchedig, G. Eyre Evans i'r ysgol gyntaf ac y mae'n amlwg iddo allu darbwyllo'r gynulleidfa i'w galw eu hun yn "Protestant Dissenters (Unsectarian)" er mwyn osgoi'r gair Undodiaid, ac iddo ef a hwythau felly ddod i helbul gyda'r Cofrestrydd.

Ar y Sul, 17 Tachwedd, 1907 cymrwyd y ddau wasanaeth yn y Tŷ Cwrdd bach gan fachgen ieuanc o'r enw D. Robertson Davies. Brawd ydoedd i'r Misses Maggie ac Annie Davies, y ddwy efengyles a fu yn teithio drwy Gymru yn amser y Diwygiad gyda Evan Roberts a myfyriwr ar y pryd yn Ysgol yr Hen Goleg, Caerfyrddin. Bu yn pregethu yma wedyn ddwy waith neu dair cyn diwedd y flwyddyn, ac y mae'n amlwg iddo wneud argraff ffafriol iawn ar y gynulleidfa, yn gymaint felly fel y cafodd wahoddiad i ddod i'w gweinidogaethu am chwech mis fel myfyriwr-weinidog (student minister). Fel Annibynwr y cafodd Mr. Davies ei ddwyn i fyny, ond wedi meddwl drosto'i hun cafodd olwg ar y golau gwell, a daeth drosodd at yr Undodiaid. Dechreuodd ar ei weinidogaeth yma ar yr ail Sul, o Ionor, 1908 ac yn ôl y cytundeb gadawodd ar ôl yr ail Sul o Orffennaf yr un flwyddyn. A barnu oddiwrth y cof-lyfr bu ei weinidogaeth yn ddigon llwyddiannus. Paratoai ar gyfer y weinidogaeth Undodaidd, a derbyniwyd ef i Goleg yr Undodiaid ym Manceinion ym mis Hydref, 1908. Am ryw reswm neu'i gilydd ni orffennodd ei gwrs yma a beth a ddaeth ohono wedyn ni wn.

Mahomet a Mahometaniaeth.

Gan y Parchedig David Evans, Cwmiago.

Tybied y darllenydd sefyll ohono yn rhywfan yng ngwlad fechan Palestina, â'i wyneb tua'r dê neu'r dê-dwyrain. Yn gorwedd o'i flaen, gwêl diriogaeth enfawr a ymestyn ymhell—gannoedd o filltiroedd—hwnt i'r gorwel, gwlad Arabia. Gwlad ddiffaith, ddigynnyrch ydyw, o boblogaeth brin—llai na phedair miliwn—pymtheg cant o filltiroedd o hyd, oddeutu wythcant o led, tua deuddeg can mil o filltiroedd ysgwâr, cyfartal i un rhan o dair o Ewrop. Eithr er mai gwlad ddiffaith a phrin o boblogaeth ydyw, perthyn iddi bwysigrwydd ar gyfrif y ffaith mai tu mewn i'w therfynau y ganed, y maged, ac y bu byw Mahomet—proffwyd Mahometaniaeth.

Yn y wlad enfawr hon y mae lle o'r enw Meca, a saif yn un o'r ysmotiau diffeithaf. Yno y ganed Mahomet yn 571 o oedran Crist ; yno y treuliodd ran fawr o'i fywyd. Mab ydoedd i rieni tlawd, eithr hanai o dylwyth urddasol. Collodd ei fam pan oedd oddeutu chwech oed ; a thros y gweddill o'i blentyndod, bu dan ofal perthynasau iddo. Ni chafodd ddim addysg ; ni fedrai na darllen nac ysgrifennu. Pan oedd ieuanc iawn, gosodwyd ef i wylied praidd,—dyna fu ei orchwyl dros rai blynyddoedd. Dywedir bod ohono, yr adeg hon o'i fywyd, o natur dawedog, hoff o fywyd meudwyol, diawydd am gwmni dynion. Oedd, hefyd, o ysbryd a thymer fwynaidd, ffyddlon, didwyll, o duedd i anwesu prudd-der. Pan oedd oddeutu pedair ar hugain oed, aeth i wasaeth boneddiges, a ddaeth, ymhen tua blwyddyn, yn wraig iddo. Rhyw 25 neu 26 oedd ei oed adeg ei briodas, a'r wraig tua 40. Eithr er y gwahaniaeth oedran, buont hynod o ddedwydd. Hi oedd y cyntaf i gredu ynddo fel proffwyd. Sieryd hyn yn uchel am ei gymeriad. Dywedir nad yw un meistr yn arwr i'w was. Lle bynnag y ceir eithriad, praw yw hynny o werth cymeriad y meistr. Tybiai y gellir dywedyd yr unpeth am ŵr a gwraig—bod edmygedd gŵr o'r wraig, neu'r wraig o'r gŵr, yn braw digonol o cymeriad pobun o'r ddau. Dyna fel y bu, modd bynnag, yn achos Mahomet a'i wraig : hi oedd y cyntaf i roddi coel i'w honiad ei fod yn broffwyd ; hi fu ei gefnogydd pennaf y gweddill o'u bywyd priodasol.

Dechreuodd dderbyn a alwai ef yn ddatguddiadau pan oedd oddeutu 40 oed. Eithr nid peth disymwth a fu toriad y wawr ar ei feddwl. Cyfnod o barotoad a fu'r cyfnod rhwng ei briodas a'r alwad. Treuliai gryn lawer o'i amser mewn gweddi a myfyrdod, a phan ddaeth yr alwad, daeth i dir a oedd barod i'w derbyn. Dyry Mahomet inni gyfrif o'r dull y daeth yr alwad. Ymneilltuodd, un

tro, i ogof tua thair milltir o Feca. Tra fu yno, cafodd freuddwydion a gweledigaethau aml. Un noswaith, clywodd lais yn ei gyfarch, "Llef, yn enw'r Arglwydd." Dywedodd wrth ei wraig beth oedd wedi digwydd ; anogodd hithau ef i ufuddhau ; ac ufuddhau a wnaeth.

Ni bu llewyrch amlwg ar ei genhadaeth am rai blynyddoedd. Ymhen pedair blynedd, tua phum cant oedd nifer ei ddilynwyr. Am rai blynyddoedd, hefyd, bu'n wrthrych erledigaeth lem ; a gwnaed ei safle'n waeth trwy farwolaeth ei wraig. Lymed a fu'r erledigaeth, fel y'i gorfodwyd i ddianc o Feca i le o'r enw Medina, ychydig bellter i'r gogledd. Gan y Mediniaid cafodd roeso gwresog ; a dechreuodd llwyddiant wenu arno. Eithr ynghwmni'r llwyddiant, daeth newid yng nghymeriad Mahomet. Enynnodd ei ddigter yn erbyn ei elynion gymaint, fel y darfu iddo fabwysiadu mesurau gorfodol—rhyfel, un o honynt—i'w gorfodi i'w dderbyn fel proffwyd. Blotyn yw hyn ar gymeriad a fyddai, hebddo, yn un o gymeriadau disgleiriaf hanes.

Wedi hyn, lledodd ei grefydd yn gyflym. Ym mhen deng mlynedd wedi iddo ymgartrefu ym Medina, aeth ar bererindod i Feca yng nghwmni tua deugain mil o'r ddilynwyr. Ar ôl ei farw yn 633 o oedran Crist, yn 62 oed, rhyfeddol o gyflym a fu lledaeniad ei grefydd. Heddiw, hi yw un o grefyddau mawr gwledydd y dwyrain—rhwng dau a thri chan miliwn o ddilynwyr.

Beibl y Mahometaniaid yw'r Coran, a gynnwys y datguddiadau a ddaeth i Fahomet o dro i dro. Cymrai ormod o ofod i roddi crynodeb llawn o'i gynnwys, a rhaid bodloni ar a ganlyn. Yn gyntaf, dysg mai un Duw sydd. Dyna sylfaen eu crefydd. Yn ail, bywyd da yn rhan hanfodol o grefydd. O ymroddi ohonynt i ympryd ac elusengarwch, credant y sicrhant drugaredd Duw. Yn drydydd, credant mewn atgyfodiad a barn. Yn y farn, dedfrydir y drwg i uffern, a'r da i nefoedd—pobun o'r ddau gyflw ryn ddiddiwedd. Yn olaf, credant ym Mahomet fel y pennaf o broffwydi Duw. Cydnabyddant eraill fel proffwydi—Moses, Abraham, Iesu. Eithr Mahomet yw'r pennaf. Siaradai Mahomet am Iesu gyda pharch diffuant ; ystyriai ef fel y pennaf o broffwydi hyd ei ymddangosiad ef ; ac efelychir ef ymron yn ddieithriad gan ei ddilynwyr. Anaml y clywir Mahometaniad yn siarad yn fychanus am Iesu. Ysbryd tra gwahanol i hyn a welir ar du Cristnogion ; fel twyllwr y cyfrifir Mahomet. Onid ysbryd a haedda'i gondemnio yw hwn ? Gan nad beth yw ein barn am Fahomet a'i grefydd, yn sicr nid twyllwr mo hono, nid peryglus mo'i addysg.

Arholiad yr Ysgol Sul, 1946.

Safon III (Ysgrifenedig).

Enillwyr y Gwobrwyon :—

Eira Evans (Llandysul ; Ernie Jones (Capel-y-Bryn) ; Glanville Williams (Llwynrhydowen) ; James Gwynfor Jones (Llwynrhydowen) ; Eurwen Davies (Cribyn).

Tystysgrif (*Ar Lafar*)—Betty Collins (Trebanos).

Safon II (Ysgrifenedig).

Enillwyr y Gwobrwyon :—

Mary Williams (Trebanos) ; Barbara Joan Warlow (Bwlchyfadfa) ; Margaret Rhiannon Jones (Bwlchyfadfa) ; Violet Beckett (Bwlchyfadfa) ; Eirion Wyn Phillips (Trebanos) ; Sally Jones (Bwlchyfadfa).

Tystysgrifau—

Thomas John Davies (Bwlchyfadfa) ; Rita Davies (Bwlchyfadfa) ; Evan David Griffiths (Bwlchyfadfa) ; Caradog Evans (Bwlchyfadfa); Lewis Hefin Davies (Bwlchyfadfa).

Safon II (Ar Lafar).

Tystysgrifau—

Brondeifi : John Wynford Jones, John Alun Jones, Ceris Jones.

Ciliau : Phylis Pugh, Jennie Lewis.

Trebanos : Cyril Davies, Tudor Eurof Davies, Byron Morgan Hopkin.

Caeronnen : Vera Jones.

Safon I (Ar Lafar).

Tystysgrifau—

Brondeifi : Mary Griffiths ; Jean Griffiths ; David John Ieuan Evans ; Samuel Clive James ; David Trevor Jones ; David Peter Davies ; Vernon Jones ; Allan Terry Pocock.

Bwlchyfadfa : Betty Evans ; Margaret May Jones ; Thomas Lyn Jones ; Sarah Mavis Davies ; Sarah H. Jones ; M. Anne Griffiths ; Roy Evans ; Olga Ansell.

Caeronnen : Siriol Olwena Thomas ; Eira Jones ; Elsa Thomas ; Olwen Davies.

Capel-y-Bryn : Anne Davies ; Eifion Jenkins ; Vernon Jenkins ; Irene Jones ; Betty Morgans ; Dilwen Davies ; Nell Davies ; Evie Jones ; Alun Davies.

Ciliau : Hilary Jonathan ; Llinos Lloyd.

Cribyn : Jean Davies ; Betty Howells ; Betty Davies.

Graig, Llandysul : David Jones ; John Evans ; Margaret Evans.

Llwynrhydowen : Tom Wynne Evans ; Tommy Jones ; Marianne Dudley ; Elizabeth Dudley ; Betty Jones ; Gwyneth Margaret Dudley ; Cynthia Evans.

Rhydygwin : Jean Griffiths ; Margaret Griffiths ; Anne Stark.

Graig, Trebanos : David Ayres ; Edward Bevan ; David Laurence Bowen ; Lynn Bowen ; Vivian Bowen ; Geoffrey Evans ; Alan Rogers ; Gareth Thomas Williams ; Meirion Williams ; Marilyn Bowen ; Beti Wyn Cooke ; Jean Ford ; Mary Maureen Jenkins ; Joan Rees ; Ann Cope Thomas ; Beverley May Thomas ; Margaret Williams.

Adroddiad yr Arholwyr.

Cawsom wir fwynhad wrth wrando ar y plant yn adrodd y gwaith llafar. Yr oedd y rhan yma o'r gwaith yn rhagorol, ac yn dangos bod rhywrai wedi llafurio'n galed i'w dysgu. Dengys y rhestr enwau bod nifer lled dda o blant ieuainc yn mynychu rhai o'n Hysgolion Sul o hyd, ac yn wir y mae dyletswydd mawr arnom ni yr oedolion (yn Weinidogion a lleygwyr) i wneud y gorau o'r do ifanc yma.

Maddeued y plant i ni'n dau am fod cyhyd cyn dod a'r Adroddiad i'r Ymofynnydd, ond da chwi peidiwch â rhoi'r bai i gyd arnom ni.

Chwi sydd eisoes yn ffyddlon i'r Ysgol Sul parhewch yn eich ffyddlondeb, a cheisiwch berswadio eraill i efelychu eich gweithredoedd da chwi.

W. D. Jones.

J. M. James.

Rhyddid yr Awyr.

GWTHIR y testun arnaf gan sylwadau Dr. Iorwerth C. Peate, enw adnabyddus i ddarllenwyr YR YMOFYNNYDD, yn *Y Cymro* (14:3:47). Gwyddom am lafur diflino Dr. Peate o blaid y pethau sydd orau yn nhraddodiadau Cymru. Yn yr ysgrif hon cyfeiria at ein ffordd o ddathlu Gwyl Ddewi. Gwêl fod y dathlu hwn wedi dod yn amlycach o lawer yn ystod y pymtheng mlynedd diwethaf. Hwyrach fod y B.B.C. yn gyfrifol i raddau helaeth am hyn, a dweud ei farn y mae Dr. Peate ar ffordd Radio Cymru i ddathlu'r Wyl eleni.

"Gellid meddwl eleni, er enghraifft, na chlywodd Radio Cymru ddim erioed am nodweddion Cymru'r ugeinfed ganrif. Gellid tybio ein bod fel ein cymrodyr tros y clawdd yn eithriadol o Anglicanaidd ac nad yw'r traddodiad Ymneilltuol yn cyfrif dim yn ein bywyd cenedlaethol. Nos Iau cafwyd gwasanaeth Anglicanaidd o Eglwys St. Paul, Llundain, ac Esgob Llanelwy yn pregethu . . . Ddydd Sul cafwyd neges gan Archesgob Cymru a nos Sadwrn cafwyd gwasanaeth yr Eglwys Esgobol a'r offeiriad yn enwi rhes o "seintiau Cymru" yn ei weddi . . .

Ie, "seintiau Cymru"—Teilo ac Asaff a Beuno a'u tebyg. Pob parch iddynt ond i naw o bob deg ohonom, y mae saint Cymru—John Jones ac Ifan Ifans a fu byw bucheddau dilychwin mewn cylchoedd digon dinod—yn cyfrif llawer mwy. Ac os ydym i ddathlu gwyl genedlaethol tybed na ellir disgwyl i'w traddodiad hwy gael peth sylw ?

Paham y mae'n rhaid i Gymru'n barhaus ar achlysuron o'r fath efelychu dulliau Lloegr lle mae'r eglwys Anglicanaidd yn eglwys swyddogol ? Dau esgob a gwasanaeth Anglicanaidd—A ydyw Radio Cymru yn ystyried hyn yn ddathlu priodol ? Pa bryd, gyda llaw, y cawn glywed gan Radio Cymru, nid ar Wyl Ddewi ond unwaith o leiaf, rywbryd yn y flwyddyn wasanaeth Undodaidd ? Y mae traddodiad gwŷr fel Iolo Morganwg lawn cyn bwysiced i Gymru a thraddodiad Teilo a Gwenfrewi. Gwnaeth gwŷr fel John Penry, Williams Pant-y-celyn, a Tomos Glyn Cothi, fwy i greu deffroad cenedlaethol yng Nghymru na'r "bagad seintiau." A ydynt hwy i'w cwbl anwybyddu ar ddydd ein gwyl genedlaethol ? . . ."

Cytunwn yn llwyr â sylwadau Dr. Peate, a diolchwn iddo am ysgrifennu mor rhesymol a phendant. Pa hyd y gedy Cymru i gulni crefyddol ei dallu ? Bydd yn dda iddi adnabod llawer o'i chymwynaswyr yn well. Onibai am y culni hwn ni byddai angen, hwyrach, i Dr. Peate ofyn y cwestiwn arall. Pa bryd y cawn glywed gan Radio Cymru unwaith o leiaf rywbryd yn y flywyddyn wasanaeth Undodaidd ?

Wrth gwrs, y mae llawer yn gofyn yr un cwestiwn. Wele eiriau un o gyfrannwyr wythnosol y *New Statesman* yn un o rifynnau Ionor 1947 :

"A week, perforce, spent in my room, has given me an opportunity I've never had before to listen to the wireless . . . There is far too much religion—not honest discussion of religion, the most absorbing of topics, but an unfair and quite ludicrous repetition of antique dogma . . ."

Fel hyn yr ysgrifenna Mr. Collie Knox, radio critic y *Daily Mail* (6:3:47) :

"Current radio religion cuts little ice. It is too impersonal. It brings no warmth . . . and is dogmatic where it should be human. It is terrified of departing from what it describes as "the main stream of Christian religion." Orthodoxy is its be-all and end-all. In three words, it is dull.

We like to know how the rest of the world lives. Radio tells us. We like to know in what the rest of the world believes. Radio apparently dare not tell us.

I am, I hope, a Christian, but I found during my years in the East much that was good and helpful in Mohammedanism and other religions. Is the Christian Church so unsure of itself that it fears to throw open the radio to discussions and views on all beliefs ?

The Religious Department (what a name !) is as narrow as the eye of a needle. I want to hear what, and how, a Unitarian thinks ; of the ease that science brings to a Christian Scientist ; of everything that can go even one step towards showing a right way of living. So do we all.

I like a rattling good sermon. There are many "star" preachers in our midst. We seldom hear them . . . All we hear are the old, dreary sing-song voices intoning platitudinous half-truths."

Credwn fod beirniadaeth yr ysgrifennwyr hyn yn gywir. Ysgrifennir llawer o bryd i bryd ar ryddid barn, ac yn ddiamau y mae'n fater sy'n cael sylw gofalus y B.B.C., ond ar fater crefydd nid yw'r B.B.C. yn cydnabod rhyddid barn. Anwybyddu'r sefyllfa ydyw dweud fod yr enwadau traddodiadol yn cael eu rhan deilwng o'r amser. Ni chynnwys yr enwadau traddodiadol bawb sy'n ymhyfrydu ym mhethau crefydd. Y tu allan i'w ffiniau hwy y mae cylch helaeth o grefyddwyr, ond ni chydnebydd y B.B.C. argyhoeddiadau'r bobl hyn. Gwnant hynny o fwriad ; i'w dibenion eu hunain ataliant y rhyddid i lefaru. Y mae ganddynt gred i'w hamddiffyn, a mynnant ei hamddiffyn trwy ddefnyddio method yr Unbenadur—propaganda a chreu rhwystrau i'r sawl sy'n gwahaniaethu fynegi eu syniadau.

Yng nghwrs y saith mlynedd diwethaf ni ddarlledwyd ond un gwasanaeth Undodaidd, ac o Regional Station yn Lloegr y daeth hwnnw. A ydyw hyn yn gynrychiolaeth gyfiawn o opiniwn Undodaidd ? Nid oes ond un ateb. Ni ellir cyfrif mewn ffigurau y rhai sy'n coleddu Undodiaeth. Y mae cylch dylanwad Undodiaeth yn un tra eang. Dyna bwynt Mr. St. John Irvine yn ei lyfr,

A Journey to Jerusalem, "They shared my belief that the largest single sect in Great Britain is composed of unofficial Unitarians who are to be found in almost every Christian organisation." Nid oes angen sôn am draddodiad y mudiad na'i hawl i ysgolheictod. Wrth gwrs, gŵyr pobl gyfrifol y B.B.C. hyn i gyd, a rhaid tynnu'r casgliad mai actio'r sensor ar gred yr Undodiaid ydyw'r anwybyddu hwn. Ydyw, y mae rhyddid crefyddol un yn o freiniau dyn —a byddai'n dda i'r uchel ei lais o blaid rhyddid crefyddol ystyried yn fanwl y cyfrwysterau a ddefnyddir mewn rhai mannau i ladd barn grefyddol.

Digon anhyfryd ydyw gorfod cyfeirio at bethau fel hyn, ac nid o ddewis y gwneir hynny. Ni byddai'r geiriau hyn wedi eu hysgrifennu onibai fod eraill y tu allan i'r mudiad Undodaidd yn codi'r mater byth a beunydd. Gwrthun ydyw'r meddwl y bydd rhywrai, efallai, yn darllen yr ychydig eiriau hyn fel dymuniad am gyfle propaganda. Ysgrifennir hwy am y credir fod egwyddor mewn perygl—*rhyddid barn* a *rhyddid i fynegi barn.*

Ymddengys yn ôl y drefn bresennol y gwrthodir rhyddid yr awyr i'r Undodwr. Nid dyna'r hanes yn yr Unol Daleithiau na'r Tiriogaethau. Ond os gwir hyn am Brydain Fawr, nid yw'n ychwanegu at glod y rhai sy'n gyfrifol.

Gohebiaeth.

1. Cadwraeth Hen Ysgrifau.

Barchus Olygydd,—

Daeth i'm llaw dro'n ôl amryw lythyrau, ysgrifau, rhaglenni, etc., yn ymwneud â hanes a gweithrediadau rhai o eglwysi Undodaidd Ceredigion. Dichon y bydd braslun o gynnwys rhai ohonynt yn fuddiol a derbyniol gan ddarllenwyr Yr Ymofynnydd.

Y cyntaf a nodaf ydyw Llyfr Trysorydd Caeronnen am y blynyddoedd 1869 i 1888. Cyn y flwyddyn 1869 Trysorydd y Capel oedd John Jones, Lanlas, Cellan. Bu efe farw ar 19 Mai, 1869, a dewiswyd ei ferch, Miss Jane Jones, Wern Cottage, yn olynydd iddo fel swyddog ariannol. Yn ffodus bu rhywun neu rywrai yn ddigon gofalus i ddiogelu Cyfrifon y ddau, ac felly ceir olyniaeth am gyfnod gweddol faith.

Trosglwyddwyd llyfr John Jones flynyddoedd yn ôl i'r Llyfrgell Genedlaethol, a dyna a fwriedir ei wneud â llyfr Miss Jones fel y gallo pwy bynnag a fynno ei weled. Credaf i'r Parch. T. Oswald Williams, M.A., alw'r cyntaf o'r ddau yn "Llawysgrif Lanlas." Yr oedd hwn yn gynllun syml a hwylus i'w ddynodi ac awgrymaf mai cysondeb a theilyngdod fyddai enwi'r ail yn "Llawysgrif y Wern" o barch i un a fu'n gadernid yng Nghaeronnen drwy gydol ei hoes hir.

Ar ddechrau'r ail lyfr ceir y mynegiad canlynol : "An account of the monies received and paid by the Church Assembling at Caeronen since the illness and decease of John Jones Wern Cottage (my Father) the former Treasurer." Eithr heblaw'r taliadau a'r derbyniadau fe geir yn llyfr Miss Jones restr o'r pregethwyr a fu'n gwasanaethu bob Sul o 1869 hyd ddiwedd 1888 a'r testunau hefyd o 1875 ymlaen ynghyd ag ambell nodiad am Gyfarfodydd Arbennig, etc. Yn niwedd Ebrill 1871 ceir hwn :—"A meeting was held at Caeronen on April 29/71 in order to appoint the Rev. R. C. Jones Cribin to be Co-pastor with the Rev. D. Evans of Maesymeillion on account of his inability to attend." Hyd y gwelaf y tro olaf y pregethodd Mr. Evans yng Nghaeronnen oedd Ebrill 27, 1873, er y ceir iddo ddechrau oedfa yn y Cyfarfodydd Blynyddol a gynhaliwyd yno ar Fehefin 23 a 24, 1880.

Trwy garedigrwydd Mr. L. Terwyn Davies, Llanbedr, meddiennais Ddyddiadur ei fam am 1872. Ceir ynddo restr—ond nid yw'n gwbl gyflawn—o'r rhai a fu n gwasanaethu yng Nghaeronnen o Sul i Sul a chyfetyb hon yn hollol i'r un a geir yn y Llyfr Cyfrifon. Y mae yn y Dyddiadur lawer o nodiadau ynghylch gweithrediadau eglwysi a thynged unigolion. (Cofier mai yn y flwyddyn 1872 yr ymwelodd y Frech Wen â Llanbedr a'r cylchoedd). Bwriedir i'r Dyddiadur hefyd fyned i'r Llyfrgell Genedlaethol.

Cefais gryn fwynhad eto o ddarllen hysbyslenni a rhaglenni Cyfarfodydd Adloniadol a Chystadleuol a arterid eu cadw yn rheolaidd gan fwy nag un gynulleidfa. Yr oedd yr hynaf o'r rhaglenni yn agos i bedwar ugain mlwydd oed. A gaf fi fynegi barn wrth fynd heibio ? Cyfaddasach i gynnal Ysgol Sul neu adran arall o eglwys ydyw'r cyfryw gyngherddau na'r estron, y *Whist Drive*, a'u disodlodd : ymddengys i mi eu bod yn fwy cydweddol â'u hamcan.

Cyn terfynu rhaid yw cyfeirio at ddwy Weithred perthynol i Gapel-y-Graig, St. Clears. Y gyntaf yw'r Brydles a ddarparwyd adeg adeiladu'r Capel yn 1832. Gweithred yw'r ail yn ymwenud â dewis Ymddiriedolwyr newydd yn 1881. Trist oedd darllen ynddynt enwau hen ffyddloniaid (rhai o honynt yn adnabyddus i ddarllenwyr hynaf Yr Ymofynnydd) a chofio hefyd fod y Capel oedd mor gysegredig ganddynt wedi ei gau ers blynyddoedd maith. Ymhlith y teuluoedd a gynrychiolir ceir y Philipiaid a'r Boweniaid hefyd yn britho'r ddwy. Pwy o hen fyfyrwyr Coleg Caerfyrddin ar ymweliad â St. Clears a Rhydyparc yn hanner olaf y ganrif o'r blaen na phrofodd letygarwch a rhadlonedd Philipiaid y Mermaid a Blaentrafle ? Coffa da amdanynt.

Byddwn yn ddiolchgar, Mr. Golygydd, am gyfarwyddyd Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru ynghylch cadwraeth ddiogel y ddwy Weithred. A oes diogelfa sicrach neu fwy dymunol na'r Llyfrgell Genedlaethol ?

Yr eiddoch,

W. S. Jones.

Marwgofion.

MAWRTH 9, ar ôl cystudd cymharol fyr, THOMAS EVANS, Woodlands, Talgarreg, yn 78 oed. Bu ef a'i deulu'n byw am flynyddoedd yn Clytai ger Cribyn, ac wedi hynny'n Blaenaugwenog, ond ers blynyddoedd rhoddodd amaethu i fyny, ac aeth ef a'i briod i fyw i Woodlands er cael ychydig seibiant ar ôl oes o weithio diwyd.

Collodd ei briod ychydig dros ddwy flynedd yn ôl, a gadawyd ef yn unig Yr Hydref diwethaf dechreuodd deimlo'n anhwylus, a symudodd i Lamb Inn, Llangeler, at un o'i ferched a'i fab-ynghyfraith am ymgeledd, ac yno bu farw gan adael chwaer, meibion a merched—yn briod i gyd—a nifer luosog o ŵyrion i wylo ei golli. Dyn distaw, di-ffus a diwyd oedd Thomas Evans, dyn a fu wrthi'n ddiwyd ar hyd y blynyddoedd, a dyn a fu'n ofalus iawn o'i deulu. Nid oedd ddyn cyhoeddus—y fferm a gwaith fferm oedd ei fyd ef, ac eto ni ellid ei gyhoeddi'n fydol, canys yr oedd yn wir barod i helpu eraill, pan fyddai galw. Claddwyd y dydd Gwener dilynol yng Nghapel-y-Fadfa, a gwasanaethwyd gan y Parchedigion E. O. Jenkins ; Albert Evans, Saron ; S. Morgan, Llanwenog a Ben Davies, Llanarth.

GEORGE LEONARD PHELPS (17 Tachwedd, 1875—13 Mawrth, 1947). Bylchwyd cylch gweinidogion Sir Forgannwg gan ei farw sydyn. Hanoedd o Gaerdydd, ac yno y daeth yn ôl i fyw yn 1943 wedi bod am 41 o flynyddoedd yn y weinidogaeth. Yr oedd ei fam yn un o sylfaenwyr yr achos Undodaidd yn y dref, ac yng Nghapel West Grove y mae tabled ar y mur yn cofnodi ei ffyddlondeb a'i doniau. Dylanwad mawr ar ieuenctid Leonard Phelps oedd y gweinidog y Parchedig Hobart Clark, ac yn ddiamau ef a'i cyfeiriodd i Goleg yr Undodiaid, Manceinion, lle yr oedd yn fyfyriwr o 1897 hyd 1902. Bu Mr. Phelps yn gofalu am chwech o gynulleidfaoedd, a llanwodd swyddi pwysig yn ei enwad. Yn nodweddiadol ohono oedd ei ffyddlondeb i gyfarfodydd y Gymdeithas leol, ac yr oedd ei gymorth yn barod bob amser i gynulleidfa neu weinidog mewn angen. Yn ffyddlon fel bugail, yn effeithiol fel pregethwr, ni fethodd yn ei weinidogaeth ro'ir pethau pwysig yn gyntaf. Ffydd, gobaith, a chariad—dyna'i ddarpariaeth ar gyfer y siwrne olaf.

MAWRTH 15, ELIZABETH JONES, Tycornel, Llanwnnen, yn 73 mlwydd oed. Gwanaidd oedd ei hiechyd ers rhai blynyddoedd, a bu yn gystuddiol am rai misoedd. Yr oedd o ysbryd hynaws a charedig, ac yn hoff gan bawb. Bu fyw yn syml a gweithgar, gan fod yn uniawn ym mhob achos. Yr oedd yn aelod ffyddlon yn eglwys Capel-y-Groes. Claddwyd ym mynwent eglwys Llanwnnen. Pregethwyd yn y tŷ gan y Parchedig Lewis Williams, Rhydygwin, yn ôl ei dymuniad, a chyflawnwyd y rhannau eraill o'r gwasanaeth gan y Parchedigion S. E. Bowen, Galltyblaca, a Bryn Davies, Gwyddgrug. Yn yr eglwys ac ar lan y bedd gwasanaethwyd gan y Parchedigion S. Morgan, Ficer, a Richard Davies, Curad Birchgrove, Llansamlet. Gadawodd fab a merch ynghyd a'u teuluoedd mewn galar.

MAWRTH 17, SARAH RICHARDS, Caehir, Cribyn, yn 77 mlwydd oed. Gwaelaidd oedd ei hiechyd ers amryw o flynyddoedd, a chafodd ei chyfyngu i'w gwely rai wythnosau cyn y terfyn. Gweithiodd yn galed ar hyd ei bywyd, a byddai segura yn fwy o flinder nag o bleser iddi. Pan oedd ieuanc ac yng ngwasanaeth eraill cyflawnai ei gwaith mor ffyddlon a didwyll a phe byddai yn perthyn iddi hi ei hun. Claddwyd ym mynwent eglwys Cribyn. Pregethwyd yn y tŷ gan y Parchedig Lewis Williams, Rhydygwin, a chynorthwywyd yn y rhannau eraill gan y Parchedig E. Jones, Ficer, Cribyn. Gwasanaethwyd yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan y Ficer. Gadawodd un ferch a theulu, tair chwaer, ac wyrion mewn galar.

MAWRTH 18, EVAN WILLIAMS, Bethnal Green Road, Llundain, yn 52 mlwydd oed. Brodor o Llansawel ydoedd, a bu yn gweithio fel saer coed ar ystâd Syr James Drummond, Edwinsford. Ymbriododd â Martha, unig ferch Mr. a Mrs. David Thomas, Cigydd, Castell House, Llanybyther. Tua wyth mlynedd yn ôl symudodd ef a'i deulu i Lundain. Cafodd ei benodi yn Reolwr ar fasnachdy mawr yno, a elwir yn Crowden and Keeves. Pan oedd yn Llansawel yr oedd yn aelod blaenllaw yn Bethel, Capel y Methodistiaid, ac yn Arweinydd y gân yno. Ar ôl symud i Lundain ymunodd ag eglwys Jewin, ac yn fuan cafodd ei ddewis yn un o arweinyddion y gân yno. Undodwraig yw ei briod, a thra yr oedd yn Llanybyther addolai yng Nghalltyblaca. Yno yr ymbriododd, a'r Parchedig Lewis Williams yn cyflawni'r gwasanaeth. Mae dau o'i brodyr yn flaenllaw gyda'r Achos Undodaidd Cymraeg yn Llundain. Mae eu hunig fab gyda'r fyddin yn India, ac yn disgwyl cael ei ryddhau yn fuan. Cyflawnwyd gwasanaeth crefyddol yn y cartref cyn cychwyn am Llansawel gan y Parchedigion D. S. Owen, Jewin, a R. Jones, Holloway. Claddwyd ym mynwent Bethel, Llansawel. Pregethwyd gan y Parchedig Stephen Jones, gweinidog, a gwasanaethwyd gan y Parchedigion Glenville Rees, Crugybar ; Thomas Jones, Llandilo ; Penry Edwards, Abergorlech ; Daniel Thomas, Ficer Caio ; Dewi Thomas, Curad Llandysul ; F. Price, Curad Port Talbot ; S. E. Bowen, Galltyblaca, a Lewis Williams, Rhydygwin. Gadawodd briod, un mab, pedwar brawd, dwy chwaer, tad a mam yng nghyfraith, pump brawd yng nghyfraith, ac amryw o berthynasau agos eraill mewn galar mawr.

CHWEFROR 4, yn 77 oed, bu farw MARY EVANS, Tanrhiw, Llanwnen, gynt o Dynywaun, ger Llwynygroes, yn yr un plwyf. Merch ydoedd i'r diweddar Simon a Mary Evans, o'r lle a enwyd. O'i pherthynasau nid oes yn aros ond nithoedd. Dydd Gwener dilynol cludwyd ei gweddillion i fynwent Capel-y-groes, y cynhebrwng yn anghyhoedd. Gwasanaethwyd gan y Parchedig David Evans.

Nodion yr Eglwysi.

TREBANOS.—Y dydd ar ôl y Nadolig cawsom Gymanfa Ganu yng Nghapel y Graig, y Capel Annibynwyr lleol yn uno â ni. Arweiniwyd gan Mr. W. H. Thomas, L.R.A.M., Clydach, a cyfeiliwyd gan y Mri. I. E. Hopkin, B.Sc. (Graig) a D. J. Jones, B.Sc. (Gosen). Llywyddwyd yn yr oedfaon gan Mr. Elted Jones (Gosen), Mr. Benjamin Thomas (Graig), Dr. Emrys Thomas (Gosen). Adroddwyd gan Miss Minna Davies (Graig) a Mrs. M. T. Davies (Graig), a datganwyd deuawd gan Mrs. Elfed Williams (Gosen) a Mrs. C. Williams (Gosen). Yr oedd cyd-adrodd y plant dan ofal Mrs. D. J. Jones (Gosen). Yr oedd y trefniadau yn llaw Mr. W. J. Bowen (Graig), ysgrifennydd y Gymanfa. Teimlwyd fod bendith ar ddydd o foliannu.

Ar noson ola'r hen flwyddyn bu'r chwiorydd yn mwynhau eu Sosial arferol.

Ar Ionor 4 daeth deiliaid yr Ysgol Sul ac eraill ynghyd i'r Parti Tê blynyddol. Arlwywyd y byrddau â danteithion. Ni wyddom o ba le y daethant, ond yr oeddynt yno. Diolchwn i'r chwiorydd a fu'n gyfrifol am eu diwydrwydd. Wedi'r tê cafwyd chwareuon a chyfarfod byr o adrodd a chanu.

(*Drwg gennym nad ymddangosodd yr uchod yn gynarach*).

CYMWYNAS.—Saif Capel-y-Fadfa ar fan tra phrin o ddwfr glân, a bu hyn yn achos achwyn ar hyd y blynyddoedd ymhlith y bobl sy'n byw o gwmpas. Dro'n ôl llwyddodd Mr. a Mrs. Evan Lloyd Jones, Pantybryn, fferm yn yr ymyl, gael cyflenwad o ddwfr at eu gwasanaeth hwy ar y fferm. Yn wir, cafwyd mwy na chyflenwad, a buont mor garedig a gosod pibellau i gludo dwfr at wasanaeth y gynulleidfa a'r tai o gylch, cymwynas a werthfawrogir yn fawr iawn.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

CYNHELIR

CYRDDAU'R PASG

YNG NGHAPEL

BRONDEIFI, LLANBEDR

NOS FAWRTH A DYDD MERCHER, EBRILL 15 A 16, 1947.

J. D. Lewis a'i Feibion, Cyf., Gwasg Gomer, Llandysul.